**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED LLANDDOGED, LLANDDOGED, NOS LUN, 25ain TACHWEDD, 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**
Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris(AM), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng Rhys Aled Griffiths(RAG), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO)

2. **CADARNHAU'R COFNODION 29ain MEDI 2024**
Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (JO) ac eilwyd gan ( AM).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**
3.1 **PLAC HANES Y CAWR CADAIR IFAN GOCH**
Bydd y clerc yn ail cysylltu gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol i holi'r diweddariad ynglŷn â'r plac.
3.2 **MYNEDFA I FAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH MAENAN**
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y gwaith o lenwi'r twll wrth fynedfa'r Maes parcio Cadair Ifan Goch wedi cael ei gwblhau.
3.3 **COEDEN NADOLIG**
Bydd aelodau'r cyngor yn gosod y goeden Nadolig yn bentref Llanddoged penwythnos yma.
3.4 **FFEDERALEIDDIO YSGOL LLANDDOGED AC YSGOL YSBYTY IFAN**
Cafwyd adroddiad gan Cyng. Anwen Jones ar y cyflwyniad gan y Pennaeth ar y diweddariad Ffederaleiddio'r ysgol.

4. **SEDD WAG – WARD MAENAN- CYFETHOL AELOD**
Yn dilyn y cyfnod hysbysebu'r swydd wag Ward Maenan daeth un enw ymlaen sef Mr Rhys Aled Griffiths, Fedwen, Maenan. Pasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau i gyfethol Mr Rhys Griffiths yn aelod ar Ward Maenan.
Arwyddodd Mr Rhys Griffiths y ffurflen 'Datganiad Derbyn Swydd' ar gychwyn y cyfarfod i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio a chod ymddygiad y cyngor.

5. **CYNNAL A CHADW**
5.1 Angen sweeper i lanhau'r dail ar Ffordd Llanddoged, Allt yr Abbey Maenan ac allt Fron Francis Llanddoged.
5.2 Angen glanhau'r ffosydd ar allt o Bryn Morfydd Mawr i lawr hyd at Gapel Salem, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
5.3 Clawdd yn gwyro i'r ffordd Troed y Rhiw, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
5.4 Twll wedi ail agor yn y ffordd wrth Rhiwdafnau, Maenan.

6.**UNRHYW FATER ARALL**

**RHODD ARIANNOL**

Derbyniwyd llythyr gan Ambiwlans Awyr Cymru gyda chais am rodd ariannol – pasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau anfon siec o £100 iddynt.